# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Kate Wright**

**Dinbych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**2 Ebrill 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gwarchodwr plant yw Kate Wright sydd wedi'i chofrestru i ofalu am ddeg o blant dan 12 mlwydd oed. Mae hi'n byw gyda'i gŵr a'u tri o blant yn eu cartref teuluol gwledig yn Ninbych. Mae'r plant yn gallu defnyddio'r ystafell flaen fawr, ystafell glyd a heulfan ar gyfer gweithgareddau dan do, ac mae ganddynt fynediad at ardd ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Darperir y gofal rhwng 7am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg, ac mae'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn dibynnu ar iaith cartref y plentyn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hyderus, wedi ymgartrefu ac yn hapus i fod yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae ganddynt fynediad at adnoddau ac mae gweithgareddau ar gael iddynt sy'n cefnogi eu dysgu ac yn eu helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Mae'r amgylchedd yn darparu gofod unigryw lle caiff plant eu hysbrydoli i ddysgu ac archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae arweinyddiaeth y gwarchodwr plant yn effeithiol ac mae hi'n datblygu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni.

### 2. Gwelliannau

Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru ym mis Medi 2017.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed argymhellion gennym yn ymwneud â rhai arferion hylendid a welwyd wrth olchi dwylo a newid cewynnau.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Ymgynghorir â'r plant ynghylch amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'r gofal a ddarperir iddynt. Maent yn hapus ac wedi ymgartrefu mewn amgylchedd y maent yn teimlo'n gyfforddus ynddo. Mae'r plant yn dysgu sut i rannu a chydweithredu – a rhoddir cymorth os oes angen. Maent yn mwynhau eu chwarae a'u profiadau dysgu ac maent yn datblygu amrywiaeth o sgiliau.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Ymgynghorir â'r plant ynghylch amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'u gofal a'u profiadau.

Roedd gan y plant ddewis rhydd o'r gweithgareddau yr oeddent eisiau cymryd rhan ynddynt a ble'r oeddent eisiau chwarae. Roedd y plant yn gallu dewis chwarae y tu mewn neu'r tu allan, ac roeddent yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd. Er enghraifft, roedd gan y plant y dewis o wneud blodau o ffelt ond gwnaethant ddewis y byddai'n well ganddynt dynnu lluniau - a chaniatawyd iddynt wneud hyn. Ymgynghorwyd â'r plant ynghylch rhai o'r dewisiadau a oedd ar gael ar gyfer byrbryd. Gofynnwyd iddynt ba ffrwyth yr hoffent ei gael, ac roedd ganddynt y dewis o gael bara ceirch â jam neu geuled lemwn - neu fara ceirch ar ei ben ei hun. Roedd anghenion, safbwyntiau a syniadau'r plant yn cael eu hystyried wrth werthuso'r gwasanaeth ac wrth gynllunio gweithgareddau.

Mae gan y plant lais ac maent yn gwybod y gwrandewir arnynt.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus i archwilio'r amgylchedd a mynegi eu hanghenion.

Roedd y plant wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn eu hamgylchoedd. Roeddent wedi meithrin perthynas gadarnhaol â'r gwarchodwr plant, ei gŵr a'u plant. Roeddent yn hyderus i archwilio'r amgylchedd y tu mewn a'r tu allan, gan ddangos eu bod yn teimlo'n ddiogel. Gwelsom blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu mewn, ac yna'n chwarae'n hapus yn yr ardd. Roeddent yn gwybod y trefniadau beunyddiol ac yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, roedd y plant yn gwybod bod angen iddynt dynnu eu hesgidiau a'u rhoi i gadw wrth gyrraedd ar ôl bod yn yr ysgol, neu pan oeddent yn dod i mewn ar ôl bod y tu allan. Roeddent hefyd yn gwybod y trefniadau yn ystod amser byrbryd ac amser te. Roedd plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd bod eu diddordebau, eu hanghenion a'u teimladau'n cael eu hystyried. Roeddent yn gwybod eu bod yn gallu mynegi eu hunain a mwynhau eu profiadau.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yng ngofal gwarchodwr plant sy'n ystyried eu hanghenion a'u diddordebau.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu sut i gydweithredu.

Roedd y plant yn siarad yn naturiol â'i gilydd, â ni, y gwarchodwr plant â'i theulu. Roeddent yn dechrau deall teimladau eraill, sut i rannu adnoddau a chymryd eu tro a rhoddwyd rhywfaint o gymorth i'r plant iau pan oedd angen. Roedd y plant yn rhannu stensiliau a phennau ysgrifennu yn hapus wrth dynnu lluniau. Roedd y plant iau yn chwarae'r tu allan, ac roeddent yn gweithio gyda'i gilydd i lenwi bwcedi â dŵr. Roedd y plant yn parchu'r teganau ac yn gwybod sut i'w defnyddio'n briodol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dechrau deall anghenion a theimladau eraill.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a'r profiadau a ddewisir ganddynt yn rhydd.

Roedd y plant yn hapus i gymryd rhan weithredol yn y chwarae a ddewisir ganddynt yn rhydd. Fe'u gwelwyd yn chwarae'r tu mewn gydag adnoddau yr oeddent wedi'u dewis, ac roeddent yn mwynhau amrywiaeth o wahanol weithgareddau a phrofiadau y tu allan. Roeddent yn gallu ffocysu ar dasgau a chanolbwyntio am gyfnodau cynyddol hir. Roedd y plant hŷn a oedd yn chwarae'r tu allan yn llawn cyffro i ddweud wrthym ynghylch y guddfan tylwyth teg roeddent yn ei hadeiladu yn yr ardd. Fe'u gwelwyd yn casglu deunyddiau naturiol a'u defnyddio wrth adeiladu. Roeddent wedi bod yn gwneud hyn ers ychydig o ddiwrnodau, ac roeddent yn gwybod eu bod yn gallu mynd yn ôl ato y diwrnod wedyn. Roedd y plant iau yn mwynhau casglu dŵr i gymysgu gyda'r tywod.

Mae'r plant yn mwynhau dysgu drwy'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn gallu bod yn annibynnol.

Roedd y plant yn datblygu ac yn dysgu drwy eu chwarae. Roedd ganddynt yr hawl i ddewis yr hyn roeddent yn dymuno ei wneud, i gymryd hyn a hyn o risgiau ac i archwilio'r byd o'u cwmpas. Pan oedd y plant iau y tu allan, gwnaethant ddechrau rhoi dŵr yn y pwll tywod, ond yna gwnaethant sylweddoli os oeddent yn ei arllwys ar y llawr roedd yn gwneud pyllau o ddŵr - ac roeddent wrth eu boddau'n sblasio ynddo. Roedd modd i'r plant fod yn annibynnol oherwydd bod ganddynt fynediad at yr adnoddau a'r cyfleusterau a oedd eu hangen arnynt. Roeddent hefyd yn cael eu hannog i fwydo eu hunain, ac roedd modd i'r plant hŷn addurno eu bara ceirch ac arllwys eu diodydd eu hunain.

Mae'r plant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau drwy eu chwarae ac oherwydd eu bod yn gallu archwilio'r byd o'u cwmpas.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol ac yn sicrhau bod y plant yn ddiogel a bod ganddynt ffordd iach o fyw. Mae hi'n rheoli'r rhyngweithio'n effeithiol, gan sicrhau bod plant yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a bod cyfleoedd yn cael eu rhoi iddynt gymdeithasu. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant drwy ddarparu amrywiaeth o brofiadau lle gallant ddilyn eu diddordebau a dysgu sgiliau newydd.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn llwyr ymwybodol o'i swyddogaeth a'i chyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd gan y gwarchodwr plant brofiad blaenorol a hyfforddiant cyfredol a oedd yn sicrhau bod ganddi wybodaeth dda am ddiogelu plant, a'r weithdrefn i'w dilyn pe bai ganddi bryderon ynglŷn â phlentyn. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith, roeddent yn gyfredol ac fe'u gwelwyd yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Roedd hyn yn amlwg pan oedd y gwarchodwr plant yn ymdrin â'r achosion bach o ymddygiad digroeso a welsom. Defnyddiodd y dechneg tynnu sylw a chynnal trafodaethau â'r plant er mwyn datrys y sefyllfaoedd yn gyflym ac yn unol â'i pholisi.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod arferion hylendid da ar waith. Roedd y plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn trin bwyd, a darparwyd tywelion a chlytiau ymolchi unigol. Gallai'r gwarchodwr plant wneud gwelliannau drwy gyflwyno sebon hylif a sicrhau ei bod hi'n gwisgo menig wrth newid cewynnau. Byddai hyn yn helpu i atal croes-heintio. Gwnaethom drafod hyn â'r gwarchodwr plant a esboniodd ei bod hi'n ceisio lleihau faint o blastig mae hi'n ei ddefnyddio, ond roedd hi'n mynd i edrych ar opsiynau eraill.

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd iach o fyw ac roedd hi'n llwyr ddeall manteision sicrhau bod gan y plant gyfleoedd i wneud ymarfer corff a chael awyr iach. Rhoddid llawer o gyfleoedd i'r plant chwarae'r tu allan yn yr ardd, mynd am dro o gwmpas y caeau helaeth a oedd o gwmpas, chwarae yn y nant leol neu ymweld â lleoedd o ddiddordeb cyfagos. Roedd bwyd iach yn cael ei gynnig, a gwelwyd y plant yn cael ffrwyth neu fara ceirch fel byrbryd a *spaghetti bolognese* i de.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw plant yn ddiogel, ac mae hi'n effeithiol wrth hyrwyddo a chefnogi ffyrdd iach o fyw.

**2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?**

Mae'r gwarchodwr plant yn esiampl dda i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn cymryd rhan weithredol yn chwarae a dysgu'r plant, gan sicrhau ei bod hi'n esiampl dda. Roedd hi'n cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn iaith eu cartref ac yn sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Cafodd yr ychydig o achosion bach o ymddygiad digroeso a welsom eu trin yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, pan oedd plentyn eisiau'r un fwced â phlentyn arall, esboniodd y gwarchodwr plant ei bod yn cael ei defnyddio, ac awgrymodd fod y plentyn yn mynd i chwilio am un arall – ac aeth i wneud hyn. Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod amseroedd megis amser byrbryd ac amser te yn brofiadau cymdeithasol i'r plant. Eisteddodd gyda nhw a siarad am wahanol bethau a oedd o ddiddordeb iddynt, a bwytaodd ochr yn ochr â nhw o bryd i'w gilydd yn ystod amser cinio ac amser te.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio'n dda, ac yn cyfathrebu a chymdeithasu â nhw i rannu a dangos esiampl o'r ymddygiad disgwyliedig.

**2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r gwarchodwr plant yn deall datblygiad plant ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau ei bod hi'n cynllunio gweithgareddau addas.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod hi'n adnabod y plant yn dda. Cyn dechrau, roedd y plant yn dod i sesiynau ymgartrefu ac roedd y rhieni'n cwblhau ffurflenni a oedd yn cynnwys gwybodaeth am anghenion, hoffterau, casbethau a threfn arferol y plant. Roedd profiadau blaenorol wedi rhoi gwybodaeth dda am ddatblygiad plant iddi - ac mae hi'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol wrth gofnodi datblygiad y plant a chynllunio gweithgareddau. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnodion o ddatblygiad pob plentyn nad oedd yn mynd i'r ysgol, ac roedd y rhain yn gysylltiedig ac yn cyd-fynd ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Wrth i ni adolygu'r cofnodion cynllunio a datblygiad, roedd yn amlwg bod y gwarchodwr plant wedi defnyddio'r camau nesaf a nodwyd ar gyfer pob plentyn i'w helpu hi i gynllunio gweithgareddau a chyfleoedd a fyddai'n ehangu'r dysgu ac yn dilyn diddordebau'r plant. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant wedi nodi bod angen i un plentyn fagu hyder wrth fod yn annibynnol. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy annog a sicrhau bod y plentyn yn llwyr ymwybodol o ble'r oedd adnoddau'n cael eu cadw. Roedd y gweithgareddau a gynlluniwyd a'r adnoddau a ddarparwyd yn ysbrydoli'r plant i ddysgu. Roedd ffotograffau a chynlluniau blaenorol yn dangos bod y plant yn cael digon o gyfleoedd - gan gynnwys adeiladu cuddfannau, mynd am dro a mynd i grwpiau lleol.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant drwy ddarparu gweithgareddau a chyfleoedd i'r plant sy'n eu hysbrydoli.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, ond mae hi'n dal i gynnig gofod y gall y plant archwilio a dysgu ynddo. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig amgylchedd unigryw sy'n helpu i ysbrydoli plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau priodol o ansawdd da, ond mae hi hefyd yn annog y plant i chwarae gydag adnoddau naturiol y maent yn dod o hyd iddynt o'u cwmpas.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod risgiau'n cael eu hasesu.

Roedd yr amgylchedd yn cael ei gadw'n ddiogel, gyda mynediad yn cael ei reoli drwy ddrws a oedd dan glo. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer pob ardal yr oedd y plant yn ei defnyddio, y tu mewn a'r tu allan. Roedd y rhain yn nodi peryglon posibl a oedd wedi cael eu dileu, neu roedd gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith i'w lleihau. Er enghraifft, roedd gard tân wedi'i osod ar y llosgydd pren, ac roedd y ci anwes yn cael ei gadw ar wahân i'r plant. Roedd yr amgylchedd y tu mewn yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd y tu allan yn cael ei gadw'n ddiogel, ond yn cynnig ymdeimlad o gyffro a rhyfeddod ar yr un pryd.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel lle caiff peryglon eu nodi a'u dileu cyn belled â phosibl.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r amgylchedd yn darparu gofod unigryw lle gall y plant chwarae a dysgu.

Roedd yr amgylchedd yn unigryw, yn gyffrous ac yn ysbrydoli plant - yn enwedig y tu allan. Roedd lleoliad gwledig y gwasanaeth yn galluogi plant i gael profiad o natur a dysgu am y byd o'u cwmpas. Roedd modd i'r plant ddefnyddio iard lle gallant chwarae ar deganau i'w gyrru, chwarae â dŵr a thywod a gwneud amrywiaeth o weithgareddau eraill. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn galluogi'r plant i archwilio'r ardaloedd eraill y tu allan pan oedd y tywydd yn well, gan gynnwys y cyfarpar chwarae sefydlog, llethr glaswelltog, cerrig sarn ac ardal natur a oedd yn cynnwys gwesty trychfilod. Gwelwyd y plant yn mwynhau chwarae'r tu allan ac yn archwilio'r ardaloedd gwahanol hyn yn fawr iawn. Y tu mewn, câi’r plant ddefnyddio ystafell flaen fawr lle gallant chwarae gydag amrywiaeth o deganau a gemau, ystafell glyd lai lle roedd modd i blant ymlacio a chael amser tawel, a heulfan gyda bwrdd mawr ynddi lle roedd y plant yn bwyta ac yn gwneud gweithgareddau crefft. Roedd yr heulfan yn wynebu caeau a'r iard, ac roedd y plant yn mwynhau eistedd wrth y bwrdd yn gwylio'r adar, ac yn mynd yn llawn cyffro pan oedd defaid yn dod i'r ffens.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd addas a chyffrous ar gyfer y plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau addas.

Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn cynnig adnoddau a oedd yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Yn ddiweddar roedd hi wedi datblygu bocsys trysor a oedd yn cael eu newid yn rheolaidd er mwyn cynnig profiadau gwahanol i'r plant. Er enghraifft, gwelsom mai thema du a gwyn oedd gan yr un mwyaf diweddar, ac roedd yn cynnwys pengwin ac adnoddau du a gwyn eraill. Darperid llawer o adnoddau i'r plant mewn bocsys ac iddynt thema – gan gynnwys ceir, trenau a phosau, ond roedd plant hefyd yn cael eu hannog i fwynhau chwarae gyda deunyddiau naturiol ac eitemau roeddent wedi dod o hyd iddynt eu hunain. Roedd conau pinwydd, concyrs a chregyn ar gael, a gwelsom y plant yn cael llawer o hwyl yn gollwng cerrig i'r dŵr a'u gwylio'n gwneud sblash a hefyd yn chwarae gyda chregyn yn y tywod.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau o ansawdd da, ond mae hi hefyd yn annog y plant i chwarae gydag eitemau naturiol a'r rhai y maent wedi dod o hyd iddynt eu hunain.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac yn deall bod angen casglu safbwyntiau eraill er mwyn helpu i wella'r gofal y mae hi'n ei ddarparu. Mae hi'n sicrhau ei bod hi'n cadw ei hyfforddiant yn gyfredol a bod yr holl wiriadau perthnasol wedi'u cwblhau. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol gyda rhieni ac mae hi wedi datblygu cysylltiadau â'r gymuned leol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan y gwarchodwr plant yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith.

Roedd gan y gwarchodwr plant yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu dilyn yn ymarferol a'u diweddaru pan oedd angen. Roedd y datganiad o ddiben yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i rieni er mwyn iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'r gofal a ddarperir i'w plentyn. Roedd hi'n llwyr ymwybodol o'i swyddogaeth, yn agored i argymhellion, ac yn gofyn am gymorth ynghylch sut i wella'r gofal y mae hi'n ei gynnig.

Mae'r gwarchodwr plant yn arwain ei gwasanaeth mewn modd effeithiol.

### 4.2 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldeb i werthuso'i gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldeb i gwblhau adroddiad ansawdd gofal. Oherwydd ei bod wedi bod yn gweithredu am lai na 12 mis, nid yw hi eto wedi gwneud hyn. Mae hi wedi casglu safbwyntiau gan rieni'n barod drwy holiadur ar-lein ac wedi casglu sylwadau gan y plant. Roedd yr holl holiaduron a ddychwelwyd a'r sylwadau o'r plant yn gadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn casglu safbwyntiau rhieni a phlant yn effeithiol er mwyn ei helpu i gynllunio ar gyfer gwella.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei hyfforddiant yn gyfredol.

Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ei holl hyfforddiant perthnasol yn cael ei gadw'n gyfredol, gan gynnwys cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd. Roedd pob unigolyn sy'n byw yn y cartref a oedd dros 16 mlwydd oed, wedi cael y gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd adnoddau'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant sy'n mynychu, ac roeddent yn cael eu storio'n effeithiol mewn bocsys ac iddynt themâu a oedd yn hygyrch i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei hyfforddiant yn effeithiol ac yn sicrhau bod y gwiriadau perthnasol yn cael eu cwblhau.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i rieni.

Roedd gan y gwarchodwr plant systemau cyfathrebu da ar waith gyda'r rhieni. Cynhelid trafodaethau yn ystod amseroedd gollwng a chasglu'r plant a oedd yn caniatáu rhannu gwybodaeth mewn modd anffurfiol. Roedd y gwarchodwr plant yn rhannu ffotograffau o'r plant yn gwneud gweithgareddau yn ystod y dydd drwy gyfryngau cymdeithasol diogel. Roedd hyn yn rhoi gwybodaeth sydyn i rieni ynglŷn â'r hyn roedd eu plentyn yn ei wneud. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn ysgrifennu cylchlythyr bob tymor er mwyn rhannu gwybodaeth, dyddiadau pwysig ac unrhyw ddathliadau.

Roedd gan y gwarchodwr plant gysylltiadau â'r gymuned leol, ac roedd hi'n mynd i gylchau chwarae amrywiol ac wedi trefnu ymweld â lleoedd o ddiddordeb lleol megis parciau a'r llyfrgell. Roedd hyn yn galluogi i'r plant a'r gwarchodwr plant i deimlo'n rhan o'r gymuned, ac yn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu.

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni a chysylltiadau â'r gymuned leol.

# 5. Gwelliannau y mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- Darparu sebon hylif ar gyfer golchi dwylo
- gwisgo menig wrth newid cewynnau

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd rhybudd byr i'r darparwr i wirio ei hargaeledd. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 19 Chwefror 2018 rhwng 1.30pm a 4.30pm, a rhoddodd adborth dros y ffôn ar 22 Chwefror 2018.

Gwnaethom y canlynol:

- arolygu sampl o ddogfennau a pholisïau, gan gynnwys cofnodion cofrestru a datblygu'r plant, cynlluniau ac asesiadau risg;
- arsylwi ar arferion er mwyn casglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperid gan y gwarchodwr plant;
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant;
- archwilio teganau ac adnoddau;
- darllen holiaduron gan rieni a ddychwelwyd i'r gwarchodwr plant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddid gan y plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr plant** |
| **Person cofrestredig** | **Kate Wright** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **Deg** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **7am i 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **Arolygiad cyntaf ers cofrestru ym mis Medi 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **19 Chwefror 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?** | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac mae'n gweithredu'n ddwyieithog. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |